



13 Hydref 2008

## ***Datganiad i'r Wasg***

### **Y Gymraeg ym Mrwsel: cyfieithwyr yn barod i fwrw ati**

Cafodd y Gymraeg a'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru hwb aruthrol wrth i naw o gyfieithwyr llwyddo ym mhrawf cyfieithu ar y pryd yr Undeb Ewropeaidd.

Bu deuddeg o gyfieithwyr draw ym Mrwsel ganol mis Medi yn sefyll prawf cyfieithu ar y pryd yr Undeb Ewropeaidd. Canmolwyd yr holl ymgeiswyr am eu medrusrwydd.

Dywedodd Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru:

“Mae'r ffaith fod canran mor uchel â 75% wedi llwyddo yn arbennig o dda o ystyried mai dim ond tua 40% o ymgeiswyr sy fel arfer yn llwyddo yn y profion yma.

“Yr hyn sy'n galonogol hefyd oedd bod y panel asesu, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Senedd Ewropeaidd, wedi'u plesio'n fawr gan safon y cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.”

Dywedodd Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

“Mae statws newydd y Gymraeg o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn garreg filltir bwysig i'r iaith ac rydw i'n edrych ymlaen at glywed Gweinidogion o Lywodraeth y Cynulliad yn annerch Cyngor y Gweinidogion yn Gymraeg.

“Hoffwn longyfarch y cyfieithwyr ar y pryd, a dymuno'n dda iddynt wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith cyffrous hwn ym Mrwsel. Mae'r canlyniad hwn yn brawf o safon uchel cyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg.”

Ychwanegodd y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones AC:

“Dwi wrth fy modd bod naw o'n cyfieithwyr rhagorol wedi llwyddo yn arholiadau cyfieithu'r UE. Maen nhw wedi dangos gallu ac arbenigedd gyda'r iaith a byddant yn chwarae rôl yn hanes ac esblygiad yr iaith Gymraeg.

“Mae Gweinidogion nawr yn medru defnyddio'r iaith mewn cyfarfodydd ym Mrwsel. Mae hyn yn hynod o flaengar a symbolaidd i statws yr iaith ac rydw i'n falch o lwyddiant y rhai sydd newydd basio'r arholiad.”

---

**Nodiadau i olygyddion . . . /**

- Cafodd yr ymrwymiad i sicrhau cytundeb ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol o fusnes yr Undeb Ewropeaidd ei wneud yng nghytundeb Cymru'n Un. Mae Cyngor y Gweinidogion eisoes wedi penderfynu y caiff Gweinidogion siarad yn Gymraeg pan fyddant yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig yng Nghyngor y Gweinidogion. Rhagwelir clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n swyddogol yno am y tro cyntaf cyn diwedd y flwyddyn.
- Bu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gwasanaethau cyfieithu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrthi ers tua blwyddyn yn gwneud yn siŵr y byddai cyfieithwyr ar y pryd cymwys ar gael i wneud y gwaith yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd pan fyddai'r Gymraeg yn ennill statws cyd-swyddogol. Roedd yn rhaid i gyfieithwyr ar y pryd Cymraeg, fel pob cyfieithydd ar y pryd arall yno, lwyddo ym mhrawf yr Undeb. Roedd y prawf yn cynnwys cyfieithu ar y pryd a chyfieithu olynol. Bu Prifysgol Westminster, Llundain, yn rhedeg cwrs cyfieithu olynol fel rhan o'r paratoadau.
- **I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru – 01248 371839**